Oriel Myrddin Gallery

Land Acts

Rhaglen Ddigwyddiadau

Dydd Sadwrn 24 Awst 2019 10am – 4:30pm
Cyfres Gweithdai Cyflenwi eich Cegin
Plethu basged Wyddelig gyda West Wales Willows
Dysgwch sut i blethu basged Wyddelig, a oedd yn cael ei defnyddio i ddraenio a gweini tatws yn draddodiadol. Gellir defnyddio'r fasged wastad hon sy'n debyg i hambwrdd fel basged fara hefyd, ac mae'r gweithgaredd hwn yn berffaith i ddechreuwyr a'r rheiny sydd am ehangu eu gwybodaeth. **16+ Oed, £45 y person - archebwch drwy Eventbrite**

***Land actions*: Pentref clai a thrychineb hinsawdd**
Yn Amgueddfa Sir Gaerfyrddin, Abergwili SA31 2JG
Byddwch yn rhan o ddigwyddiad cyffrous i helpu i greu setliad clai bach ar dir Amgueddfa Sir Gaerfyrddin yn Abergwili gydag Ymddiriedolaeth Porth Tywi. Ymunwch â ni i archwilio mapio 3D, newid hinsawdd, llifogydd a gwyddor daear.
Dydd Mawrth 20 a Dydd Mercher 21 Awst 2019 11am – 4pm
Dewch i greu adeilad o glai i'w osod ar ein map 3D o ddyffryn Tywi.
Dydd Iau 22 Awst 2019 11am – 1pm
Ymunwch â ni am gyfres o ymyriadau pan fyddwn yn llifo dŵr'n setliad clai ac yn archwilio effaith lefelau gwahanol y mor wrth iddo godi ac achosion o lifogydd.
Croeso i bawb, am ddim, galwch heibio, nid oes angen archebu lle

Dydd Mawrth 27 Awst 2019 11am – 3pm
Cyfres Gweithdai Cyflenwi eich Cegin
Defnyddio cŵyr gwenyn i greu deunydd lapio a bagiau gyda Louise Bird
Dewch i ddysgu sut i greu deunydd lapio a bagiau brechdanau gan ddefnyddio cŵyr gwenyn gyda Louise Bird, artist tecstilau o Gaerfyrddin. **8+ Oed, £5 y person, galwch heibio, nid oes angen archebu lle**

Dydd Gwener 30 Awst 12 – 7pm a Dydd Sadwrn 31 Awst 10:30am – 7pm
The Big Cwtch Festival
Dewch i ymweld â stondin i gael gwybod rhagor am ein rhaglen Criw Celf ac ymunwch â'r arlunydd tecstilau Louise Bird ar gyfer y Big Knit a'r Big Cwtsh. Am ddim i'r rheini sy'n mynd i'r ŵyl.

Dydd Iau 19 Medi 2019 6 – 7:30pm
Clwb Llyfrau Oriel Myrddin: Deep Country by Neil Ansell
Ochr yn ochr â'n harddangosfa *Land Acts* yn Oriel Myrddin, byddwn ni'n darllen *Deep Country: Five years in the Welsh hills* gan y newyddiadurwr Neil Ansell. Dyma stori am bum mlynedd a dreuliwyd yn byw ar ei ben ei hun mewn bwthyn ar fynydd-dir diarffordd yng Nghymru. Ymunwch â ni am drafodaeth anffurfiol a chyfeillgar. **Digwyddiad am ddim, nid oes angen archebu lle**

Peak Art in the Black Mountains Celf yn y Mynyddoedd Duon · Actif | Active · Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales · Noddir gan Llywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government · Supported by The National Lottery® through the Arts Council of Wales · Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol trwy Gyngor Celfyddydau Cymru

Oriel Myrddin Gallery

Land Acts

Dydd Sadwrn 21 Medi 2019 9:30am – 12:30pm
Cyfres Gweithdai Cyflenwi eich Cegin
Lluniwch ddysgl sy'n gallu gwrthsefyll gwres y ffwrn gyda Mill Rundle Pottery
Yn Mill Rundle Pottery, Dolwerdd, Drefach Felindre, SA44 5UG
Yn y gweithdy bore hwn byddwch yn creu dysgl bastai syml sy'n addas i'r ffwrn neu'r ford.
16+ Oed, £45 y person - archebwch drwy Eventbrite

Dydd Mercher 25 Medi 2019 12 – 3pm
Rhannu Bwyd mewn Cinio Cynaeafu gydag Ella Gibbs
Neges i'r holl gynhyrchwyr, garddwyr, gweithwyr tir lleol - fe'ch gwahoddir i Oriel Myrddin i Rannu Bwyd mewn Cinio Cynaeafu fel rhan o'r arddangosfa *Land Acts.* Dyma gyfle i rannu ychydig o'r hyn rydych chi'n ei gynaeafu, ei dyfu, ei wneud a'i gynhyrchu. **Digwyddiad am ddim, galwch heibio, nid oes angen archebu lle**

Dydd Gwener 11 Hydref 2019 11am - 3pm
The Soil Assembly
Yn cael ei gynnal gan yr artist Owen Griffiths
Diwrnod o sgyrsiau ag artistiaid a siaradwyr gwadd 'Land Acts', gan archwilio ein perthynas â'r tir.
Digwyddiad am ddim ond mae rhaid i chi archebu lle - archebwch drwy Eventbrite

Dydd Sadwrn 12 Hydref 2019 2 – 4:30 pm
Y Darlun Mawr - *Land Games* gyda'r artist Seren Stacey
Ymunwch â ni ar gyfer y Darlun Mawr wrth i'r artist Seren Stacey archwilio sut y gall creadigrwydd hyrwyddo ein dealltwriaeth o dir ac adnoddau yn ogystal â'n hiechyd a'n llesiant. Dewch i greu tirlun drwy rannu a chyfnewid, ymuno ag eraill neu aros yn annibynnol. **£3 y person, galwch heibio, nid oes angen archebu lle**

27 Gorffennaf – 12 Hydref 2018
Gwneuthurwr dan Sylw: Annabet Wyndham
Ein Gwneuthurwr Dan Sylw yn Gorffennaf – Hydref 2019 yw'r gemydd Annabet Wyndham. Gemydd a gof arian yw Annabet sy'n creu darnau bychain ymarferol. Mae hi'n defnyddio arian ac enamel gwydrog yn bennaf, ond mae hi hefyd yn defnyddio pren haenog aeroply a gaiff ei siapio a'i beintio. Ysbrydolir ei gwaith diweddaraf gan beintiadau bywyd llonydd, yn enwedig rhai gan yr arlunydd modernaidd William Scott.

27 Gorffennaf – 12 Hydref 2018
Cyfres Y Rhes Gefn: Louise Young
Louise Young yw'r diweddaraf i fod yn rhan o Gyfres Y Rhes Gefn yn Oriel Myrddin sy'n rhoi sylw i artistiaid Cymreig yn siop yr oriel. Ers dechrau 2018, mae Louise wedi bod yn artist gwadd ar fferm fiodynamig FernVerrow yn y Mynydd Du. Mae'r casgliad o 13 o baentiadau, y mae rhai ohonynt yn cael eu harddangos yma, yn cynrychioli blwyddyn galendr o dyfiant.

Peak Art in the Black Mountains Celf yn y Mynyddoedd Duon
Actif | Active
Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales
Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government
Supported by The National Lottery® through the Arts Council of Wales
Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol trwy Gyngor Celfyddydau Cymru